Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# NHS Wales shingles vaccination programme

## Visual aid for Healthcare Professionals

**This information is for health professionals delivering the NHS shingles vaccination programme in Wales**

## What's new?

Since August 2025, the NHS Wales shingles vaccination programme has been extended to include:

- severely immunosuppressed individuals aged 18 and over.

This change is based on recent advice from the **Joint Committee on Vaccination and Immunisation** (JCVI) [1]

Please refer to the **Welsh Health Circular (2025)** for further details on the changes to the programme [2]

## Background

From 1 September 2023, the programme introduced:

- the Shingrix® vaccine to those newly eligible, and
- changes to the age of eligibility.

These changes were based on earlier advice from the JCVI [3]

**Please see the table below for an overview of the phased shingles vaccination programme:**

| Implementation phases | Duration | Eligible for first dose |
|---|---|---|
| **Phase One** | 1 Sept 2023 to 31 Aug 2028 (5 years) | Those turning 65 or 70 years during this period should be called in on/after their 65th or 70th birthday* |
| **Phase Two** | 1 Sept 2028 to 31 Aug 2033 (5 years) | Those turning 60 or 65 years during this period should be called in on/after their 60th or 65th birthday* |
| **Ongoing routine offer** | 1 Sept 2033 onwards | Those turning 60 years of age should be called in on/after their 60th birthday* |

* those that became eligible and missed out remain eligible until their 80th birthday.
**We are currently in phase 1 of the Shingles vaccination programme.**
Please refer to the **Welsh Health Circular (2023) 024** for further details [4]

## When should eligible individuals receive the vaccine?

**Individuals who are eligible should be invited for their vaccination.**
The table below summarises the individuals eligible for the shingles vaccine:

| Individual's age | Is the individual severely immuno-suppressed? | When will they receive the Shingrix® vaccine? 1st dose | 2nd dose |
|---|---|---|---|
| **Turned 65 years or 70 years^ (on/after 1 September each year from 2023 to 2028)** | No | Aged 65 years<br>Aged 70 years | Between 6 and 12 months following first dose |
| **71 – 79 years who have not been given a shingles vaccine** | No | Individuals aged 70 - 79 years are eligible until their 80th birthday^^ | Between 6 and 12 months following first dose ^^^ |
| **18 years and over (no upper age limit)** | Yes^^^^ | On or after their 18th birthday | Between 8 weeks and 6 months following first dose^^^^^ |

^ If an individual is already 65 or older but not yet 80 during phase one, General Practices can provide the vaccine opportunistically if possible.
^^ All immunocompetent individuals remain eligible for the shingles vaccine until their 80th birthday.
^^^ Where an individual has turned 80 years of age following their first dose of Shingrix®, a second dose should be provided before the individual's 81st birthday to complete the course.
^^^^ Individuals who should be offered Shingrix® amongst this age group are summarised in the **Green Book chapter 28a - Shingles (herpes zoster)** (external site).
^^^^^ Once severely immunocompromised individuals have received 2 doses of Shingrix®, they will not require re-vaccination.

Version 3 | August 2025 © Public Health Wales NHS Trust

**Mae'r gwybodaeth hon ar gael yn Gymraeg.**
**This information is available in Welsh.**



Image source:
**www.nhs.uk/conditions/shingles** (external site)

**Shingrix®** is a recombinant adjuvanted (non-live) subunit vaccine, given as **two** doses.




## References:

1. JCVI statement on the shingles (herpes zoster) vaccination programme (2024): **JCVI statement on the shingles (herpes zoster) vaccination programme - GOV.UK** (external site)
2. Welsh Health Circular (2025): **Expansion of shingles immunisation for severely immunosuppressed people aged 18 to 49**
3. Minutes of JCVI meetings (2019): **www.gov.uk/government/groups/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation#minutes** (external site)
4. Welsh Health Circular (2023) 024: Change of vaccine and cohort expansion for shingles vaccination programme (from September 2023): **www.gov.wales/changes-shingles-vaccinations-september-2023-whc2023024** (external site)

## Further information:

- Green Book chapter 28a: **Shingles (herpes zoster): the green book, chapter 28a - GOV.UK** (external site)
- Public Health Wales - Immunisation and vaccine information for the public and health professionals: **Immunisation and Vaccines - Public Health Wales**
- Shingrix® (Electronic Medicines Compendium UK) – Summary of product characteristics (SmPC): **Shingrix® (emc) (medicines.org.uk)** (external site)
- If you would like to order more copies of this poster or any immunisation publications, please visit: **Health Information Resources - Public Health Wales**

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Rhaglen frechu rhag yr eryr GIG Cymru

## Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

**Mae'r wybodaeth hon ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu Rhaglen frechu rhag yr eryr GIG Cymru**

## Beth sy'n newydd?

Ers mis Awst 2025, mae rhaglen brechu rhag yr eryr GIG Cymru wedi'i hymestyn i gynnwys:

- unigolion 18 oed a hŷn sy'n ddifrifol imiwnoataliedig.

Mae'r newid hwn yn seiliedig ar gyngor diweddar gan y **Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu** (JCVI) [1]

Cyfeiriwch at **Gylchlythyr Iechyd Cymru** am fwy o fanylion am y newidiadau i'r rhaglen [2]

## Cefndir

O 1 Medi 2023 ymlaen, cyflwynodd y rhaglen:

1. y brechlyn Shingrix® i'r rhai sydd newydd ddod yn gymwys, a
2. newidiadau i'r oedran cymhwysedd

Roedd y newidiadau hyn yn seiliedig ar gyngor cynharach gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) [3]

**Gweler y tabl isod am drosolwg o gyflwyno'r rhaglen brechu rhag yr eryr yn raddol:**

| Cyfnodau gweithredu | Hyd | Cymwys ar gyfer y dos cyntaf |
|---|---|---|
| **Cam Un** | 1 Medi 2023 i 31 Awst 2028 (5 mlynedd) | Dylai'r rhai sy'n troi'n 65 neu'n 70 oed yn ystod y cyfnod hwn gael eu galw i mewn ar/ar ôl eu pen-blwydd yn 65 neu'n 70 oed* |
| **Cam Dau** | 1 Medi 2028 i 31 Awst 2033 (5 mlynedd) | Dylai'r rhai sy'n troi'n 60 neu'n 65 oed yn ystod y cyfnod hwn gael eu galw i mewn ar/ar ôl eu pen-blwydd yn 60 neu 65* |
| **Cynnig arferol parhaus** | 1 Medi 2033 ymlaen | Dylai'r rhai sy'n troi'n 60 oed gael eu galw i mewn ar/ar ôl eu pen-blwydd yn 60 oed* |

* mae'r rhai a ddaeth yn gymwys, ac a fethodd gael eu brechu, yn parhau'n gymwys tan eu pen-blwydd yn 80 oed.

**Rydym ar hyn o bryd yng nghyfnod 1 y rhaglen frechu rhag yr Eryr.**

Cyfeiriwch at **Gylchlythyr Iechyd Cymru (2023) 024** am fwy o fanylion [4]

## Pryd ddylai unigolion cymwys gael y brechlyn?

**Dylid gwahodd unigolion sy'n gymwys i gael eu brechu.**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r unigolion sy'n gymwys ar gyfer y brechlyn eryr:

| Oedran yr unigolyn | A yw'r unigolyn yn ddifrifol imiwnoataliedig? | Pryd fyddan nhw'n cael y brechlyn Shingrix®? | |
|---|---|---|---|
| | | Dos 1af | 2il ddos |
| **Wedi troi yn 65 neu 70 mlynedd^ (ar/ar ôl 1 Medi bob blwyddyn o 2023 i 2028)** | Nac ydy | 65 oed<br>70 oed | Rhwng 6 a 12 mis ar ôl y dos cyntaf |
| **71 – 79 oed nad ydynt wedi cael brechlyn yr eryr** | Nac ydy | Mae unigolion 70-79 oed yn gymwys tan eu pen-blwydd yn 80 oed^^ | Rhwng 6 a 12 mis yn dilyn y dos cyntaf ^^^ |
| **18 oed a hŷn (dim terfyn oedran uchaf)** | Ydy^^^^ | Ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed | Rhwng 8 wythnos a 6 mis ar ôl y dos cyntaf ^^^^^ |

^ Os yw unigolyn eisoes yn 65 oed neu'n hŷn ond heb fod yn 80 oed eto yn ystod cam un, gall Practisiau Meddygon Teulu ddarparu'r brechlyn ar hap os yn bosibl.

^^ Mae pob unigolyn imiwnogymwys yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y brechlyn rhag yr eryr tan ei ben-blwydd yn 80 oed.

^^^ Pan fydd unigolyn wedi troi'n 80 oed ar ôl ei ddos cyntaf o Shingrix®, dylid darparu ail ddos cyn pen-blwydd yr unigolyn yn 81 oed er mwyn gwblhau'r cwrs.

^^^^ Crynhoir yr unigolion y dylid cynnig Shingrix® iddynt ymhlith y grŵp oedran hwn **ym mhennod 28a yn y Llyfr Gwyrdd - Eryr (herpes zoster)** (safle allanol, Saesneg yn unig).

^^^^^ Unwaith y bydd unigolion sydd ag imiwnedd gwan iawn wedi derbyn 2 ddos o Shingrix®, ni fydd angen eu hail-frechu.



Ffynhonnell y llun: **www.nhs.uk/conditions/shingles** (Safle allanol, Saesneg yn unig)

Mae **Shingrix®** yn frechlyn is-uned ailgyfunol sy'n cynnwys cyffur ategol (nad yw'n fyw) a roddir fel **dau** ddos.




## Cyfeiriadau:


1. Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ar raglen brechu rhag yr eryr (herpes zoster) (2024): **JCVI statement on the shingles (herpes zoster) vaccination programme - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
2. Cylchlythyr Iechyd Cymru (2025): **Ehangu'r rhaglen imiwneiddio rhag yr eryr i bobl rhwng 18 a 49 oed sy'n imiwnoataliedig iawn** (safle allanol)
3. Cofnodion cyfarfodydd JCVI (2019): **www.gov.uk/government/groups/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation#minutes** (safle allanol, Saesneg yn unig)
4. Cylchlythyr Iechyd Cymru (2023) 024 - Newidiadau i frechiadau yn erbyn yr eryr (o fis Medi 2023): **https://www.llyw.cymru/newidiadau-i-frechiadau-yn-erbyn-yr-eryr-whc2023024** (safle allanol)


## Rhagor o wybodaeth:

- Pennod 28a y Llyfr Gwyrdd: **Shingles (herpes zoster): the green book, chapter 28a - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gwybodaeth imiwneiddio a brechlyn ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol: **Imiwneiddio a Brechlynnau - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Shingrix® (Electronic Medicines Compendium UK) – Summary of product characteristics (SmPC): **Shingrix® (emc) (medicines.org.uk)** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Os hoffech archebu rhagor o gopïau o'r poster hwn neu unrhyw gyhoeddiadau imiwneiddio, ewch i: **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Fersiwn 3 | Awst 2025 © Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru